Awst 2024

Croeso i E-fwletin Cymru Iach ar Waith (CIW)

Mae ein e-fwletin misol yn darparu diweddariadau gan dîm CIW, newyddion iechyd a llesiant yn y gweithle yn ogystal â dolenni i ymgyrchoedd a digwyddiadau sydd i ddod.

Y mis hwn:

- Deddfau Hawliau Gweithwyr Newydd ar gyfer 2024
- Cymru Iach ar Waith i fynd i Ddigwyddiad Ffederasiwn y Busnesau Bach (FSB) yn Ne Cymru
- Cynigion Newydd Llafur ar Hawliau Cyflogaeth
- Cymru Iach ar Waith Ar Daith
- Dyddiadau Allweddol ar gyfer Medi 2024

Mae croeso i chi rannu'r wybodaeth hon gyda'ch cydweithwyr neu rwydweithiau, ynghyd â'n **manylion cofrestru a rhifynnau blaenorol**.

Deddfau Hawliau Gweithwyr Newydd ar gyfer 2024

Eleni, mae sawl deddf newydd yn cael eu cyflwyno gyda'r nod o wella bywydau gweithwyr ledled y DU. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar absenoldeb gofalwyr, cysylltiadau cyflogaeth (gweithio hyblyg) ac amddiffyn gweithwyr.

Gan ddechrau ym mis Ebrill, mae'r Ddeddf Absenoldeb Gofalwyr yn caniatáu i weithwyr â chyfrifoldebau gofalu gymryd hyd at wythnos o wyliau di-dâl yn flynyddol. Mae'r Ddeddf Cysylltiadau Cyflogaeth (Gweithio Hyblyg), sy'n effeithiol o ddiwrnod cyntaf cyflogaeth, yn cynnig ceisiadau gweithio mwy hyblyg a phenderfyniadau cyflymach. Bydd y Ddeddf Diogelu Gweithwyr sydd ar ddod yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr atal aflonyddu rhywiol, gan gynnwys yn ystod gwaith oddi ar y safle a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r gwaith.

Am wybodaeth ychwanegol ar bynciau cysylltiedig, gweler **tudalen gwaith teg Cymru Iach ar Waith**.

Cymru Iach ar Waith i fynychu Digwyddiad Ffederasiwn y Busnesau Bach (FSB) yn Ne

Cymru

Mae Cymru Iach ar Waith wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan yng **Nghynhadledd Busnesau Bach FSB De Cymru** (Saesneg yn unig) a gynhelir yng Nghaerdydd ar 4 Medi.

Dyma fydd pedwaredd Cynhadledd FSB De Cymru i Fusnesau Bach. Noda 50 mlynedd ers sefydlu Ffederasiwn Busnesau Bach. Bydd yn cael ei chynnal gan y newyddiadurwr teledu Sian Lloyd ac yn cynnwys ystod eang o siaradwyr a fydd yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'ch busnes.

Bydd Mary-Ann McKibben, Arweinydd Ymgynghorol Cymru Iach ar Waith, yn rhoi cyflwyniad ar Iechyd a Gwaith; Pam Gweithredu, sy'n cwmpasu manteision llesiant yn y gweithle. Mae gennym stondin hefyd, gobeithiwn eich gweld chi yno!

Cynigion Newydd Llafur ar Hawliau Cyflogaeth

Yn dilyn Araith y Brenin, mae'r llywodraeth Lafur wedi cyflwyno bil hawliau cyflogaeth cynhwysfawr gyda'r nod o wella amddiffyniadau gweithwyr. Mae cynigion allweddol yn cynnwys mesurau diogelu cryfach yn erbyn diswyddo annheg, gwaharddiad ar arferion ecsbloetio fel contractau dim oriau a sefydlu Asiantaeth Gwaith Teg i orfodi'r hawliau hyn. Nod y bil yw "gwneud Prydain y lle gorau i weithio," gan sicrhau bod gweithwyr yn gallu cael eu trin ag urddas a pharch yn eu swyddi wrth fyw bywydau boddhaus y tu allan i'r gwaith.

Am ragor o wybodaeth ewch i'r fersiwn lawn o'r **Papur Gwyrdd Hawliau Cyflogaeth** (Saesneg yn unig).

Cymru Iach ar Waith Ar Daith

Mynychodd Cymru Iach ar Waith gyfarfod Llais Busnes Torfaen yng Nghwmbrân yn ddiweddar. Trefnwyd y digwyddiad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ac roedd tua 40 o fentrau bach a chanolig yn bresennol. Roedd y diwrnod yn canolbwyntio ar rwydweithio a rhoddodd gyfle i fusnesau gyflwyno eu hunain, eu cynnyrch a'u cynigion cyfredol.

Yn y llun mae Laura Jones, Rheolwr Cyflenwi Gwasanaethau Cymru Iach ar Waith, yn cyflwyno i'r cynadleddwyr ar y diwrnod.

Rydym bob amser yn mwynhau cyfarfod â'n rhanddeiliaid, ac yn edrych ymlaen at fynd i fwy o ddigwyddiadau yn y misoedd nesaf.

Dyddiadau Allweddol

Nabod Eich Rhifau! Wythnos (Saesneg yn unig)(2-8 Medi)

Nabod Eich Rhifau! Cynhelir yr wythnos hon bob mis Medi a dyma ddigwyddiad profi ac ymwybyddiaeth pwysedd gwaed mwyaf y DU.

Mae gan chwe miliwn o bobl yn y DU bwysedd gwaed uchel ac nid ydynt yn ymwybodol ohono. Fel arfer nid oes unrhyw symptomau; gallai'r arwydd cyntaf ohono fod yn

drawiad ar y galon neu strôc.

Thema eleni yw 'Mae Gennych y Grym', oherwydd mae'r pŵer yn eich dwylo chi i wirio eich pwysedd gwaed i weld a yw o dan reolaeth.

Anogwch eich cydweithwyr i gymryd rhan yn Wythnos Gwybod Eich Rhifau! , a chael eu pwysedd gwaed wedi'i wirio. Gallwch **Gofrestru yma** (Saesneg yn unig) a derbyn adnoddau trwy becyn cymorth e-bost. Gallwch hefyd lawrlwytho poster **Gwybod Eich Rhifau!** (Saesneg yn unig) i hyrwyddo'r digwyddiad yn y gwaith.

Diwrnod Atal Hunanladdiad (Saesneg yn unig)(10 Medi)

Trefnir Diwrnod Atal Hunanladdiad y Byd gan y **Gymdeithas Ryngwladol i Atal Hunanladdiad (IASP)** (Saesneg yn unig). Y thema ar gyfer 2024-2026 yw "Newid y Naratif ar Hunanladdiad", gan annog pobl i "Ddechrau'r Sgwrs". Bydd y diwrnod yn tynnu sylw at bwysigrwydd lleihau stigma wrth annog sgyrsiau agored i atal hunanladdiadau.

Mae gweithredu yn y gweithle sy'n cefnogi ac yn annog diwylliant agored o fewn y gweithlu yn galluogi pobl i gael yr hyder nid yn unig i siarad ond hefyd i gymryd camau a helpu i atal hunanladdiad. Fel cyflogwr, gallwch chi helpu i chwarae rhan yn hyn trwy hyrwyddo adnoddau iechyd meddwl, gwella cefnogaeth iechyd meddwl a lleihau stigma iechyd meddwl trwy gynnal sgyrsiau agored a gonest.

Mae gwybodaeth ychwanegol am ffyrdd iach o fyw ac iechyd meddwl hefyd ar gael ar ein **gwefan**.

Gellir cyrchu dolenni i ystod o ymgyrchoedd ymwybyddiaeth trwy **wefan CIW**.

Cymru Iach Ar Waith

Healthy Working Wales | Floor 5, No.2 Capital Quarter Tyndall Street | Cardiff, CF10 4BZ GB

Unsubscribe | Update Profile | Constant Contact Data Notice

Constant Contact

Try email marketing for free today!